

Mae gan Shaheen dros 20 mlynedd o brofiad ar lawr gwlad yn gweithio yn bennaf yn y sector gwirfoddol, gan weithio gyda a thros gymunedau dan anfantais, wedi'u hymylu a lleiafrifol.

Mae ganddi brofiad damcaniaethol ac ymarferol helaeth mewn gwaith yn ymwneud â gwrth-wahaniaethu, gwrth-hiliol, dad-drefedigaethol a chyfiawnder cymdeithasol.

Gweithiodd i'r Black Environment Network (BEN) gan hyrwyddo treftadaeth naturiol, adeiledig a hanesyddol fel maes o fwynhad, addysg a chyflogaeth dros gymunedau croestoriadol sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol o ran hil. Mae hi wedi darparu hyfforddiant i sefydliadau treftadaeth ac amgylcheddol adnabyddus i'w helpu i ddod yn fwy cynrychioliadol a chynhwysol yn eu harferion gwaith. Mae hi hefyd wedi gweithio i Gyngor Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru a nifer o gyrff cyhoeddus mawr ar draws y DU fel arweinydd amrywiaeth a chynhwysiad cenedlaethol, gan gynghori a chefnogi wrth gyflwyno eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

Mae gan Shaheen ddiddordeb mewn hanes Pobl Dduon y DU a thaflu goleuni ar straeon cudd Pobl Dduon Cymru. Mae hi'n awdur cyhoeddedig ac wedi cyfrannu traethawd yn y Gymraeg Traethodau (Lluosog) ar Ddyfodol Cymru, yn ogystal â darnau i gydnabod digwyddiadau tirnod yn hanes Cymru: Pen-blwydd y Siartwyr yn 180 oed a'r Siartiwr Du: William Cuffay, a Therfysgoedd Hiliol 1919 yng Nghasnewydd a Chaerdydd.

Astudiodd ym Mhrifysgol Glasgow a Choleg Harlech yng Nghymru.